# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

---------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 17 Mehefin 2025.

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau** – Sion Tomos, Ken Williams, Gwenno Griffiths, Iwan Williams, Rhys Jones, Cyng. Dafydd Davies,

**Presennol –** Aaron Hughes (cadeirydd), Eleri Owen, Eirian Allport, Eifion Jones, Guto Huws, Thomas Williams ac Elias Jones,

**3. Cofnodion cyfarfod 20 Mai 2025** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Eifion Jones fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn Codi**

1. Ynys Wyllt – Aaron Hughes wedi siarad â LWH ynglŷn â'r sefyllfa. Mi wnaeth LWH gynnig efallai yn syniad rhoi y safle ar werth yna buasai pethau yn symud ymlaen yn well. Trafodwyd y mater o'r cynnig hyn. Cynnigwyd ac eilwyd i ofyn i LWH i roi pris ar y tir. Aaron Hughes i gysylltu a nhw am hyn a hefyd gyda Sara Evans ein cyfreithwraig i ddweud y penderfyniad ac i ofyn os yw hi'n fodlon cario mlaen gyda pethau.

2. Mainc Aberdesach – wedi cael gair hefo Sion Tomos ac am wneud anfoneb erbyn y penwythnos.

3. Mynediad i'r fynwent – gofyn i Sara Evans, cyfreithwraig y Cyngor Cymuned am ddiweddariad hefo hyn er mwyn cael symud ymlaen.

4. Pont bren Tai Lôn - dal heb ei orffen, adroddwyd ei bod ar raglen waith Cyngor Gwynedd.

5. Coed Aberdesach – angen diweddariad gan Gwenno Griffiths ar hyn pan yn gyfleus.

6. Arwydd cyflymder – yn dilyn adroddiadau bod yr arwydd cyflymder sydd wedi ei osod ym Mhontllyfni wedi gwneud gwahaniaeth i'r gyrru drwy'r pentref cynnigwyd y dylid cael un ar y pen arall o'r pentref ar gyfer y traffig sydd yn dod o gyfeiriad Caernarfon. Gofynwyd i'r clerc gael pris gan y cwmni am arwydd yr un fath erbyn y cyfarfod nesaf.

7. Deffibs – wedi eu checio ag yn iawn. Angen padiau newydd yn un Pontllyfni (dau pad) a Clynnog (un pad). Ebost wedi ei dderbyn gan Gyngor Cymuned Llanengan i gael cyfarfod cyffredinol i drafod edrych ar redeg y deffibs. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn Abersoch mis Medi i drafod ymhellach.

8. Biniau – disgwyl am ymateb gan Gyngor Gwynedd am gael rhain. Y clerc i ddilyn fyny ar y mater.

9. Llwybr Lan Môr – canglwm yn dew ac angen gwneud rhywbeth i'w waredu. Trafod sut i symud ymlaen gyda hyn. Clerc i holi Dafydd Thomas, Pwyllgor Ardal Nebo.

10. Llwybr o Bryscyni Ganol i Bryscyni Uchaf – wal wedi disgyn i'r llwybr ac angen edrych arno.

Arwyddwyd ……………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………

11. Pontllyfni – manhole BT – gofyn i cwmni Griffiths ddod yno i wneud y gwaith.

12. Clwb Ieuenctid – yn dilyn y drafodaeth mis diwethaf cafwyd cynnig yn hytrach na ariannu hyn yna dechrau rhywbeth ein hunain yn Clynnog. Cynnig y buasai y Cyngor Cymuned yn ariannu y Neuadd i drefnu clwb. Trafod y mater yn dilyn i bwyllgor y neuadd drafod y syniad.

**5. Ceisiadau cynllunio** –

17 Tai Lleuar, Pontllyfni – Estyniad unllawr to fflat ac ystafell gardd – DIM GWRTHWYNEBIAD

**6. Materion ariannol**

a) Sefyllfa ariannol ar 28 Mai 2025

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £32.68 |
| Cyfrif cyfredol | £21324.38 |

B) Archwilwyr mewnol – penodi archwilwyr – cynnigwyd ac eilwyd i Cyngor Gwynedd ymwneud a'r gwaith hwn.

**7. Gohebiaeth –**

Cyngor Gwynedd – cronfa Gwynedd Ni. Edrychwyd dros y llythyr a'r ffurflen gais. Trafodwyd beth fuasai yn bosib ei wneud. Cynnigwyd i geisio cael yr arian i ddechrau y clwb ieuenctid.

UnLlais – cynrychiolaeth i fynychu Pwyllgor Ardal – neb awydd mynychu. Rhoi enw dau i fynychu os yn medru mynd.

Ebost Bethan Dobson – materion Pantglas. Blodau – gyrru y bil i Nia ei dalu. Llain gwair – pobl yn parcio ac yn difrodi y gwair. Trafod efallai rhoi arwydd dim parcio – Aaron Hughes am fynd i edrych. Cysylltu hefo ADRA ynglŷn a tai cyngor. Gofyn i Bethan os awydd dod ar y Cyngor Cymuned neu yn nabod unrhyw un sydd awydd.

**8. Materion aelodau** – **Thomas Williams** – cyflog y clerc cynnig i'w godi 5% o rwan ymlaen ac yna ei godi 5% bob mis Ebrill. Cynnigwyd ac eilwyd y cynnig hwn. **Elias Jones** – cwynion am oddiweddu yn Aberdesach a'r goryrru yno. Cynnig i yrru at Andrew Gregson am y pryderon unwaith eto. Hefyd cynnig i ofyn am gyfarfod hefo fo i drafod hyn. Gofyn lle buasai'r Cyngor Cymuned yn sefyll os yn rhoi arwyddion ein hunain i fyny yno – egluro bod pobl dal i bryderu am ddiogelwch yno. **Eleri Owen** – gwyneb Lôn Ddŵr, Aberdesach (gyferbyn a mynedfa Penarth) angen sylw. **Eifion Jones** – chwyn angen ei spreio. Torri gwair yn amlach yn Clynnog fel Pontllyfni a Pantglas. Holi Geraint Hughes Cyngor Gwynedd os hyn yn bosib.

**9. Materion eraill –**

Tir Comin Bryn Ifan – pawb wedi cael copi o'r ebost oedd wedi ei dderbyn. Er gwybodaeth oedd o i adael i bawb wybod.

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 15 Gorffennaf 2025 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….